

Hwb Ynni Gwyrdd: Ymgysylltu Cynnar

HYDREF/TACHWEDD 2022

TUDALEN 1

Annwyl Breswlydd,

Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer Hwb Ynni Gwyrdd cynaliadwy yng Nghwm Trecwŷ ac roeddem am rannu ein cynigion sy'n dod i'r amlwg â chymdogion, y gymuned leol a rhanddeiliaid yn y cyfnod cynnar hwn, fel y gallwn glywed eich barn a'ch syniadau, a deall yn well sut y gallwn ni greu buddion ystyrlon yn rhan o'n cynlluniau.

Wrth galon ein cynigion ar gyfer Hwb Ynni Gwyrdd Trecwŷ mae gwaith electroleiddio hydrogen gwyrdd 15MW, a fyddai'n cael ei bweru gan dri thyrbîn gwynt (hyd at 150m o uchder) a phaneli solar ar y safle. Ni fyddai angen echdynnu trydan o'r Grid Cenedlaethol i bweru'r electroleiddwyr, a byddai'r holl bŵer a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu hydrogen gwyrdd.

Gellid defnyddio'r hydrogen gwyrdd at amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys trenau, bysiau, cerbydau nwyddau trwm ac mewn diwydiant. Yn rhan o'r ymgysylltu cynnar, rydym wedi sefydlu gwedudalen prosiect a byddwn yn cynnal arddangosfeydd cyhoeddus a gweminar yn Hydref/Tachwedd 2022.

Gobeithiwn y byddwch yn dod draw i ddysgu rhagor, i sgwrsio ag aelodau o dîm y prosiect ac i rannu eich barn gychwynnol am ein cynlluniau newydd.

Cofion gorau,



Mícheál Ó Broin
Rheolwr y Prosiect

Dweud eich dweud

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn gychwynnol ar ein cynlluniau newydd erbyn **17 Tachwedd 2022**.

EWCH I DDIGWYDDIADAU I DDARGANFOD MWY:

ARDDANGOSFEYDD LLEOL



24 Hydref: 3pm – 7pm
Parc Y Morlys (Admiralty Park),
Y Dyffryn, Trecwŷ, SA62 5YD

25 Hydref: 3pm – 7pm
Neuadd Goffa,
Trelert, SA62 5RY


26 Hydref: 3pm – 7pm
Canolfan Gymunedol Dysgu,
Abergwaun, SA65 9DT

GWEMINAR



9 Tachwedd: 6pm – 8pm
Dysgu rhagor a chofrestru ar-lein:

www.trecwn-energy.wales



Y safle

Wedi'i leoli i'r de-ddwyrain o Sceddau, mae'r safle yng Nghwm Trecwŷn, sy'n Barth Cyflogaeth Strategol ger Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Roedd yr hen ddepo arfau milwrol yn cyflogi tua 3,000 o bobl yn ei anterth. Mae'r cynnig yn gyfle cyffrous i gynhyrchu ynni gwyrdd cartref at ddefnydd lleol ac mae ganddo'r potensial i fod yn gatalydd ar gyfer ailddatblygu Cwm Trecwŷn.

Mae'r safle'n elwa o fynediad i gefnffordd yr A40 a rheilffordd breifat (sy'n arwain at y rheilffordd rhwng Abergwaun a Chaerfyrddin), gan ddarparu mynediad uniongyrchol ar gyfer gwaith galluogi, adeiladu a gweithredu parhaus.

Mae gan Gwm Trecwŷn seilwaith sylweddol ar y safle eisoes, gydag amrywiaeth eang o adeiladau diwydiannol, cilffyrdd rheilffordd a lloriau caled â gwasanaeth yn ogystal ag adeiladau gweinyddol a diogelwch. Byddai'r cyfleuster hydrogen gwyrdd arfaethedig yn integreiddio o fewn ôl troed datblygedig presennol.

Creu ynni gwyrdd

Byddai'r cynigion yn cefnogi Strategaeth Sero Net Llywodraeth Cymru i gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 70% o'r defnydd o drydan yng Nghymru drwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030, yn ogystal â chyfrannu at gyflawni'r Cynllun Gwyrdd Mawr, sef strategaeth ddatgarboneiddio Cyngor Sir Benfro.

O fewn Sir Benfro, byddwn yn cynhyrchu hyd at bedair tunnell o hydrogen gwyrdd y dydd, digon i redeg un bws am dros 40,000 o filltiroedd, neu'r hyn sy'n cyfateb i wneud 350 o deithiau o Abergwaun i Gaerdydd, ond heb yr allyriadau niweidiol a gynhyrchir gan danwydd diesel neu betrol traddodiadol.



Fferm Wynt Altwallis, Caerfyrddin, De Cymru, 10 tyrbîn, 110m o uchder

Crynodeb o'r prosiect

H 15 MW
Electroleiddiwr
hydrogen

14.4 MW
Tri thyrbîn gwynt
hyd at 150m
(i flaen y llafn)

15 MW
Araeau solar
wedieu gosod
ar y ddaear

H 4 TUNNELL
o storfa hydrogen

H 100%
hydrogen glân,
di-garbon

£ £73k
Yn flynyddol yn seiledig
ar MW osodol at
Gronfa Gymunedol*

* Yn seiledig ar £5k y MW o wynt, gan ddefnyddio'r tyrbînau â'r sgôr isaf (4.2MW) a £10k y flwyddyn o ynni solar.

Ystiriaeth Amgylcheddol

Mae ymchwiliadau safle cynnar wedi dechrau a bydd Statkraft yn cyflwyno cais cwmpasu cyn bo hir i Benderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru (PEDW) i sicrhau bod yr astudiaethau amgylcheddol priodol yn cael eu cynnal wrth i'r cynigion gael eu datblygu.

Bydd yr astudiaethau hyn hefyd yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth a gwelliannau i'w cyflawni yn rhan o'r datblygiad.




Beth yw hydrogen gwyrdd?

Hydrogen yw'r elfen fwyaf helaeth yn y bydysawd. Mae'n cynnig ffordd o ddarparu ynni carbon isel oherwydd pan gaiff ei losgi nid yw'n cynhyrchu CO₂, dim ond dŵr a gwres.

Dyfeisiwyd y gell danwydd hydrogen yng Nghymru nôl ym 1842 gan William Grove ac mae wedi cael ei defnyddio ers hynny yn rhan o brosesau diwydiannol a gosodiadau masnachol.

Cynhyrchir hydrogen gwyrdd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy (fel gwynt a solar) ac electroleiddio, gan olygu ei fod yn lân ac yn ddi-garbon: dewis amgen delfrydol i danwydd ffosil ar gyfer gwres, tanwydd, cynhyrchu trydan, ac yn ddeunydd crai mewn prosesau diwydiannol.



Amdanom ni

Statkraft yw cynhyrchydd ynni adnewyddadwy mwyaf Ewrop, sy'n cynhyrchu 67 TWh o ynni adnewyddadwy ar draws ein gweithrediadau.

Gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd ac Aberystwyth, mae gennym 20 o brosiectau ar waith neu wrthi'n cael eu datblygu ledled y DU, gan gynnwys Fferm Wynt Alltwalis yn Sir Gaerfyrddin a Gwaith Ynni Dŵr Rheidol ger Aberystwyth.

Ar hyn o bryd rydym yn archwilio'r potensial i drenau sydd yn rhedeg ar y rheilffyrdd i'r gorllewin o Abertawe gael eu pweru gan hydrogen. Byddai hyn yn sicrhau llawer o fanteision trydaneiddio, megis defnyddio tanwydd digarbon, ond am gostau cyfalaf sylweddol is, a chyda llai o angen am seilwaith newydd.

Ein huchelgais yw cyflymu cynnydd y Deyrnas Unedig i sero net, a chael effaith gadarnhaol ar y cymunedau rydym yn cydweithio â nhw drwy sicrhau buddion cymunedol ac enillion net bioamrywiaeth.

Y broses gynllunio

Gan y bydd Hwb Ynni Gwyrdd Trecwŷ yn cynhyrchu mwy na 10MW o drydan fe'i diffinnir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Mae hyn yn golygu y bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) ac yn cael ei ystyried gan Arolygwr, a'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymreig.

Ymgysylltu cynnar

Mae Statkraft wedi ymrwmo i gydweithio'n agos â'r gymuned leol i ddod â gwerth hirdymor a chyflawni prosiect y gellir ei ystyried yn ased lleol.

Rydym am glywed eich barn i'n helpu i lunio'r cynlluniau trwy gydol y datblygiad ac archwilio sut y gallwn ni gynyddu'r cyfleoedd a'r buddion. Ewch i'n harddangosfeydd cyhoeddus i siarad ag aelod o'r tîm prosiectau a dysgu rhagor am y cynlluniau a rhoi eich barn i ni.

Mae arnom eisiau clywed gennych!

EWCH I DDIGWYDDIADAU I DDARGANFOD MWY:

ARDDANGOSFEYDD LLEOL



24 Hydref: 3pm – 7pm
Parc Y Morlys (Admiralty Park),
Y Dyffryn, Trecwŷ, SA62 5YD

25 Hydref: 3pm – 7pm
Neuadd Goffa,
Treletert, SA62 5RY

26 Hydref: 3pm – 7pm
Canolfan Gymunedol Dysgu,
Abergwaun, SA65 9DT

GWEMINAR



9 Tachwedd: 6pm – 8pm
Dysgu rhagor a chofrestru
ar-lein:
www.trecwn-energy.wales

Gallwch ddarganfod mwy am ein prosiectau a'r ffordd yr ydym yn gweithio yn
www.statkraft.co.uk

Cyfarfod Arweinydd y Brosiect

Ein Huwch Reolwr Prosiect yw Mícheál ac mae'n cael ei gynorthwyo gan dîm o arbenigwyr a fydd yn gallu ateb cwestiynau yn y digwyddiadau ymgysylltu cynnar.

Ewch i'n gwedudalen i ddysgu rhagor:

www.trecwn-energy.wales



Cysylltwch â ni:



Dychwelwch y cerdyn ateb rhadbost a ddarparwyd



www.trecwn-energy.wales



Ffoniwch linell gymorth y prosiect:
0800 772 0668



UKProjects@statkraft.com

Cardiff
Regus House
Falcon Drive
Cardiff
CF10 4RU

London
19th Floor
22 Bishopsgate
London
EC2N 4BQ

Glasgow
1 West Regent Street
Glasgow
G2 1RW

www.trecwn-energy.wales